**Yr Adran Drafnidiaeth**

Oddi wrth y Gweinidog Gwladol
Y Gwir Anrhydeddus Simon Burns AS

Great Minister House
33 Horseferry Road
London SW1P 4DR

Ffôn: 202 7944 3082
Ffacs: 020 7944 4492
E-bost: simon.burns@dft.gsi.gov.uk

Gwefan: www.gov.uk/dft

Y Cynghorydd Evan Selwyn Griffiths
Cadeirydd y Cyngor
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Ein Cyf: MC/64412

14 Ionawr 2013

Annwyl Gynghorydd Selwyn Griffiths

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr 2012, a dderbyniwyd ar 8 Ionawr 2013, oedd yn rhoi copi i mi o rybudd o gynnig ynglŷn â buddsoddi mewn rheilffyrdd yn rhwydwaith isranbarthol gogledd Cymru.

Fis Gorffennaf 2012 fe gyhoeddom y strategaeth buddsoddi mewn rheilffyrdd genedlaethol ar gyfer 2014-19, ac roedd y strategaeth hon yn rhoi ystyriaeth i flaenoriaethau buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer rheilffyrdd, ac yn darparu ar eu cyfer. Roedd Llywodraeth Cymru wedi adnabod y byddai cryn botensial i drydanu rhwydwaith ehangach y Cymoedd, ac roedd wedi gweithio gyda Network Rail a'r Adran i fodloni'i hun fod y cynllun yn cynnig gwerth da. Mae Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo llawer o gost y cynllun drwy'r ffioedd uwch y bydd y gwasanaethau trên lleol yn eu talu am fynediad i'r trac ar ôl trydanu'r rhwydwaith, ond mae effeithlonrwydd y trydanu ar y patrwm dwys o wasanaethau yn golygu, ar y cyfan, y bydd lleihad yn y gost.

Disgwyliaf y bydd y strategaeth nesaf ar gyfer buddsoddi yn y rheilffyrdd yn 2019-24 yn rhoi ystyriaeth debyg i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Byddwch yn falch o gael gwybod fod Llywodraeth Cymru wedi nodi moderneiddio'r brif linell rhwng Caer a Chaergybi fel cynllun mae'n dymuno ymchwilio iddo. Mae swyddogion wedi bod mewn trafodaethau â'r Adran ynghylch sut ellid mynd ati i gynnal adolygiad o'r costau a'r buddion ar y cyd â Network Rail, cwmnïau gweithredu'r trenau a budd-ddeiliaid allweddol.

Rwy'n rhoi copi o'r llythyr hwn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru y gwnaethoch chi ysgrifennu ato hefyd, ac i Carl Sargeant AC, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru – ei swyddogion ef sy'n datblygu'r strategaeth reilffyrdd yng Nghymru.

**Yr Adran Drafnidiaeth**

Y GWIR ANRHYDEDDUS SIMON BURNS

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**ALUN FFRED JONES AC/AM**

Swyddfa Etholaeth/Constituency Office
8 Stryd y Castell/Castle Street
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SE

Ffôn: (01286) 672076
Ebost/Email: alunffred.jones@wales.gov.uk

Ionawr 22ain, 2012

Gwyn Parry Williams
Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu
Gwasanaeth Democrataidd
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

A/56

Annwyl Gwyn Parry Williams

Diolch am y copi o'r cynnig a basiwyd gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â phwysigrwydd uwchraddio rheilffyrdd Gogledd Cymru. Dwi'n cytuno 100% a dwi wedi bod yn ymgyrchu am yr uwchraddio yma i ddigwydd ers blynyddoedd.

Dwi wedi gofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ac i'r Gweinidog Trafnidiaeth ar y mater ac wedi codi'r mater yn y Pwyllgor Busnes a'r Economi. Mater i San Steffan yn benodol ydi hyn ac mae David Jones yr Ysgrifennydd Gwladol wedi deffro i'r diffyg yma yn ddiweddar ac yn gwneud synau cadarnhaol. Dwi'n ymwybodol hefyd bod nifer o gynghorau'r Gogledd wedi bod yn lleisio eu pryderon ac yn gefnogol i weld y rheilffordd yn cael ei thrydaneiddio.

Un broblem sylfaenol ydi nad ydi'r trac rheilffordd ar hyd y Gogledd ac i lawr i Lundain yn cael ei ystyried yn rhan o'r rhwydwaith traws Ewropeaidd er bod yr A55 yn cael ei chydnabod fel rhan o'r rhwydwaith yma sy'n cysylltu Iwerddon, Llundain, Paris a Brwsel. Yn swyddogol y rheilffordd sy'n cysylltu Iwerddon a Llundain a'r cyfandir yw'r rheilffordd sy'n teithio ar hyd llwybr y De. Tydi hyn yn gwneud dim synnwyr o gwbl gan nad oes fferi yn teithio o Abertawe a thu hwnt i Abertawe wrth gwrs mae'r lein yn un wledig ac yn arafach na rheilffordd y Gogledd. Ac mae cysylltiad â Rosslare a Cork yn llawer hirach na chroesi o Gaergybi i Ddulyn. Y broblem ynglŷn â chydnabod pwysigrwydd rheilffordd y Gogledd yw nad oes fawr ddim nwyddau masnachol yn cael eu cario ar hyd iddi ac yn cael eu trosglwyddo ar y fferi i Ddulyn. Mae'r masnach i gyd yn digwydd ar hyd yr A55 a'r lorïau ac mae hynny wedyn yn israddio'r rheilffordd o safbwynt y fasnach tra mae'r olew sy'n dod i mewn i Aberdaugleddau yn golygu bod rheilffordd y de yn cael ei chydnabod fel cyswllt pwysig er nad oes ond ychydig iawn iawn o nwyddau masnachol yn cael eu cario ar y rheilffordd honno o Iwerddon draw i'r cyfandir.

Gallwch bod yn sicr y byddaf yn gwneud fy ngorau i hyrwyddo'r ymgyrch hon i drydaneiddio rheilffordd y Gogledd ac i wneud hi'n addas ar gyfer ar yr unfed ganrif ar hugain.

Yn gywir iawn

**<u>Alun Ffred Jones</u>**
**Aelod Cynulliad Arfon**